# YSGOL GYFUN GYMRAEG LLANGYNWYD

PRIFATHRO | HEADTEACHER: MR MEURIG JONES BA (Anrh), CPCP

LLANGYNWYD, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF34 9RW

POST.YGGLLANGYNWYD@BRIDGEND.GOV.UK

WWW.YGGLLANGYNWYD.CYMRU

@YGGLLANGYNWYD

01656 815700

01656 815701


24.02.2021

Annwyl rieni/gofalwyr,

O 1 Mawrth 2021, bydd tir ysgolion ledled Cymru yn dod yn fannau di-fwg.

Wrth i Gymru ddod y wlad gyntaf yn y DU i ymestyn ei gwaharddiad ar ysmygu i rai ardaloedd yn yr awyr agored, rydym yn ymrwymedig i wella iechyd ein staff a'n dysgwyr trwy ddarparu amgylchedd di-fwg.

O 1 Mawrth, gallai ysmygu mewn mannau di-fwg – sydd nid yn unig yn cynnwys tir ysgolion ond hefyd meysydd chwarae cyhoeddus, lleoliadau gofal dydd a gwarchod plant yn yr awyr agored, yn ogystal â thir ysbytai – arwain at ddirwy o £100.

Rydym am amddiffyn pawb rhag mwg ail-law niweidiol ac rydym yn cydnabod yn arbennig y rôl bwysig sydd gan oedolion wrth ddylanwadu ar agweddau ac ymddygiad ysmygu plant a phobl ifanc. Bydd gwahardd ysmygu mewn lleoedd lle mae plant a phobl ifanc yn treulio'u hamser yn dad-normaleiddio ysmygu ac yn lleihau'r siawns y bydd plant a phobl ifanc yn dechrau ysmygu yn y lle cyntaf – gan arbed bywydau yn y pen draw.

Diolchaf am eich cefnogaeth i sicrhau ein bod ni i gyd yn chwarae ein rhan wrth adeiladu dyfodol iachach.

Gall y rheini sy'n chwilio am help i roi'r gorau i ysmygu gyrchu gwasanaeth cymorth GIG Cymru am ddim, Helpa Fi i Stopio, ar 0800 085 2219 neu ewch i www.helpafiistopio.cymru am help a chymorth, gan gynnwys mynediad at feddyginiaeth am ddim i roi'r gorau i ysmygu.

Yn gywir

Mr Meurig Jones
Prifathro